

GERAINT LEWIS



Enw: Geraint Lewis

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ces i fy ngeni yn Aberystwyth a fy magu yn Nhregaron, Ceredigion.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Gynradd Tregaron ac Ysgol Uwchradd Tregaron.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Hoffi chwaraeon, casáu gwaith coed (am nad oeddwn i'n dda yn y pwnc).

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Pêl-droediwr.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Unrhyw beth gan T. Llew Jones yn Gymraeg neu Enid Blyton yn Saesneg.

Beth yw eich diddordebau? Wedi bod yn rhedeg hanner marathonau ar hyd y blynyddoedd ond erbyn hyn yn hoffi cerdded Llwybr yr Arfordir. Hefyd yn hoffi gwylio chwaraeon, darllen a mynd i'r theatr.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Pryd bwyd sy'n cynnwys sgwrs dda gyda ffrindiau neu deulu.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Agwedd drahaus ambell berson.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Yn weddol ifanc, tua deuddeg oed, dechreuais ysgrifennu rhyw fath o hunan-gofiant!

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Fel arfer rhyw wrthdaro yn fy mhen dwi angen ei ddatrys neu ei ddeall yn well.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?



Diddordeb byw mewn pobol yn gyffredinol oherwydd fod bodau dynol mor ddifyr a trasig ar adegau. O ran pynciau, mae gwleidyddiaeth o ryw fath byth yn bell i ffwrdd ac yn fwy diweddar yr amgylchfyd.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Eisteddych wrth y ddesg ac ewch amdani. Hynny yw ysgrifennwch rhywbeth, unrhyw beth, does dim ots beth. Wedyn mae gyda chi rhywbeth ar bapur allwch chi wella.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

Y wefr prin a geir pan mae rhyw ymadrodd neu ddisgrifiad yn gweithio'n dda yw'r peth gorau. Y peth gwaethaf yw ansicrwydd y swydd a'r diffyg hyder sy'n codi o bryd i'w gilydd.



Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Capan a Chwpan, gan Gwynfil Rees.

Hoff le? Arfordir Ceredigion, enwedig Cei Bach sy'n lle da i fynd â'r ci am dro.

Hoff fwyd? Bwyd Eidalaid.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

The Godfather a Breaking Bad.

Hoff air? Haden (sy'n golygu merch neu fenyw sy'n tipyn o gymeriad).

Superpower o ddewis? Hedfan (i weld arfordir Cymru o ongl wahanol!)

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Twitter.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Pethau o fyd natur yn aml, er enghraifft wyn bach yn rasio ei gilydd.

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol? Rhywbeth i wneud a chwaraeon. Athro o bosib.

Top tip i ddarpar awduron

Dal ati yw'r gamp bwysicaf – dyfal donc a dyr y garreg.